**<u>Y Pwyllgor Busnes BC27-02 (Terfynol)</u>**

**COFNODION Y CYFARFOD**

**Dyddiad:** 22 Ionawr 2002
**Amser:** 9 a.m.
**Lleoliad:** Ystafell A3.13

**Yn bresennol:** John Marek, Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Andrew Davies, y Trefnydd
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru
Jonathan Morgan, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr
Peter Black, y Democratiaid Rhyddfrydol

Paul Silk, Clerc y Cynulliad
David Lambert, Ymgynghorydd Cyfreithiol Swyddfa'r Llywydd
Marie Knox, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau (eitem 6 ar yr agenda)
Andrew George, Clerc y Pwyllgor Busnes
Marion Stapleton, Uned Fusnes y Cynulliad
Adrian Green, Ysgrifenyddiaeth y Siambr
Alun Gruffudd, YP/y Dirprwy Lywydd

## <u>1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau</u>

Dim

## <u>2. Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol</u>

**(i) Dydd Mawrth 8 Ionawr 2002 - BC8-02 (Terfynol)**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf derfynol. Am nad oedd unrhyw sylwadau, byddent yn cael eu cyfieithu'n barod i'w cyhoeddi.
**Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

**(ii) Dydd Mawrth 15 Ionawr 2002 - BC20-02 (Drafft)**

2.2 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar ffurf ddrafft. Am nad oedd unrhyw sylwadau, byddent yn cael eu cyfieithu'n barod i'w cyhoeddi. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

## 3. <u>Materion sy'n codi (Dydd Mawrth 15 Ionawr 2002 - BC20-02)</u>

3.1 **Paragraff 3.1** Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i farn y Cwnsler Cyffredinol ar gylch gwaith y Pwyllgor Busnes i geisio'r rhesymau dros ddefnyddio'r weithdrefn Weithredol o dan eitem 5 ar yr agenda.

3.2 **Paragraff 3.2** Dywedodd Marion Stapleton y byddai'r Aelodau'n cael gwybod pa rannau o'r weithdrefn is-ddeddfwriaeth arferol oedd yn cael eu

datgymhwyso o dan Reol Sefydlog 22.27 pan fyddai'r weithdrefn Weithredol yn cael ei defnyddio yn y dyfodol.

3.3 **Paragraff 3.3** Dywedodd Marion Stapleton ei bod wedi cysylltu â Jocelyn Davies i geisio cael eglurhad o'r ymholiad a wnaeth ynghylch y gorchymyn pysgodfeydd môr a oedd wedi cael ei herio'n llwyddiannus yn y llysoedd a diwygio'r gorchymyn yn dilyn hynny. Roedd ymchwiliadau ar y gweill bellach er mwyn dosbarthu papur i aelodau'r Pwyllgor ar gyfer y cyfarfod nesaf.
**Gweithredu: Marion Stapleton**

3.4 **Paragraff 5.1** Rhoddwyd ystyriaeth i adborth y Rheolwyr Busnes ar y trafodaethau o fewn grwpiau'r pleidiau ar y Weithdrefn o ran Teyrngedau a Mynegi Cydymdeimlad (BC243-01) o dan eitem 5 ar yr agenda.

## <u>4. Is-ddeddfwriaeth</u>

Dim

## 5. <u>Cyngor i'r Cynulliad ar weithdrefnau</u>

<u>Cylch gwaith y Pwyllgor busnes i ystyried defnydd y Cabinet o'r weithdrefn Weithredol:</u>

- Barn y Cwnsler Cyffredinol (BC22-02)

- Nodyn gan y Clerc ar Farn y Cwnsler Cyffredinol (BC23-02)

5.1 Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r papurau uchod. Dywedodd y Dirprwy Lywydd fod egwyddorion diffuantrwydd ac atebolrwydd yn berthnasol i'r Cynulliad yn ei gyfanrwydd a golygai hyn y dylai'r rhesymau dros ddefnyddio'r weithdrefn Weithredol fod yn eglur. Dywedodd y Trefnydd nad oedd wedi cael cyfle i ystyried papur y Clerc gyda'r Cwnsler Cyffredinol ac yr hoffai wneud hynny. Cytunodd y Pwyllgor i ohirio trafodaeth ar y mater hwn tan yr wythnos nesaf. **Gweithredu: yr Ysgrifenyddiaeth**

- Cofrestru a Datgan Buddiannau'r Aelodau (BC24-02)

5.2 Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r adroddiad uchod gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad a oedd yn cynnwys argymhellion i ddiwygio Rheol Sefydlog 4 a chytunodd y dylid trafod hyn yn y cyfarfod llawn. **Gweithredu: yr Ysgrifenyddiaeth i gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Busnes.**

- Y weithdrefn o ran Teyrngedau a Mynegi Cydymdeimlad (BC243-01)

5.3 Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r papur uchod a chytunodd ar rai mân-ddiwygiadau er mwyn cael mwy o hyblygrwydd. Dywedodd Jocelyn Davies nad oedd cynnig cydymdeimlad bob amser yn briodol. Byddai'n well ganddi weithdrefn a oedd yn darparu ar gyfer mynegi cydymdeimlad yn hytrach na chynnig cydymdeimlad. Dywedodd y Trefnydd ei fod yn pryderi y gallai'r weithdrefn fod yn rhy gyfarwyddol a gofynnodd am ragor o amser i'w hystyried. Dywedodd Paul Silk y gellid diwygio cynnig. Fodd bynnag, roedd

darpariaeth eisoes o fewn Rheolau Sefydlog ar gyfer teyrngedau coffa, felly efallai na fyddai angen cynnig. Cytunodd y Pwyllgor i ohirio'r mater a'i drafod ymhellach ar 12 Chwefror 2002 yn dilyn ystyriaeth gan grwpiau'r pleidiau.
**Gweithredu: Rheolwyr Busnes i fynd â'r mater i grwpiau'r pleidiau.**

## 6. Pwyllgorau

Dim

## 7. Busnes ar y Gweill

### Busnes yr Wythnos Hon (BC25-02)

7.1 Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i bapur BC25-02 a oedd yn rhoi manylion am y busnes y cytunwyd arno ar gyfer y Cynulliad yr wythnos honno. Yn ychwanegol i'r busnes a gafodd ei amserlennu ar gyfer y diwrnod hwnnw dywedodd y Trefnydd fod cais wedi dod i law am gwestiwn brys ar y ddamwain rheilffordd a ddigwyddodd ger y Fenni ddydd Gwener 18 Ionawr 2002. Roedd y Llywydd yn ystyried hyn.

### Datganiad Busnes Drafft (BC26-02)

7.2 Dywedodd y Trefnydd fod nifer o newidiadau i'r Datganiad Busnes Drafft. Roedd y rhain fel a ganlyn:

- Dylai'r cynnig i gymeradwyo'r Adroddiadau Grant Arbennig ar leihau maint dosbarthiadau Cyfnod Allweddol 3 ddarllen "Cyfnod Allweddol 2"; roedd wedi'i symud o 29 Ionawr ynghyd â'r Datganiad ar Ofal Lliniarol o 31 Ionawr i 5 Chwefror.

- Byddai'r ddadl ar Gofrestru a Datgan Buddiannau'r Aelodau a diwygiadau i Reol Sefydlog 4 yn cael ei chynnal ar 5 Chwefror. Byddai'r cynnig i gymeradwyo'r Gorchymyn Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau a gafodd ei amserlennu ar gyfer 5 Chwefror yn awr yn digwydd rywbryd eto.

- Gwnaed nifer o newidiadau i fusnes a gafodd ei amserlennu ar gyfer dydd Iau 7 Chwefror. Byddai teitlau dau gynnig yn cael eu newid; dylai'r cynnig i gymeradwyo'r Gorchymyn Grant Arbennig Arian Cynnal a Chadw Awdurdod Lleol ddarllen "Cynnig i gymeradwyo'r Grant Arbennig Cynnal a Chadw Ffyrdd Lleol". Dylai'r cynnig i gymeradwyo'r Grant Arbennig Diogelwch Ffyrdd ddarllen "Adroddiad Grant Arbennig (Cymru) 2002 ar Ddiogelwch Ffyrdd". Symudwyd y cynnig i gymeradwyo'r Adroddiad Grant Arbennig ar atgyweirio ffyrdd nad ydynt yn gefnffyrdd.

7.3 Mewn ymateb i gwestiynau gan Jonathan Morgan a Jocelyn Davies, dywedodd y Trefnydd nad oedd yn bosibl symud dadleuon pleidiau lleiafrifol Plaid Cymru na'r Ceidwadwyr a gafodd eu hamserlennu ar gyfer 29 Ionawr, ond byddai'n ystyried amserlennu dadleuon o'r fath ar ddiwrnodau gwahanol yn y dyfodol. Addawodd ystyried neilltuo amser ar gyfer dadleuon ar y Mesur Addysg a'r gwasanaethau post.

7.4 Cyngor y Pwyllgor i'r Trefnydd ar ei ddatganiad arfaethedig ynghylch trefniadaeth busnes y Cynulliad ar gyfer yr wythnosau'n dechrau ar ddydd Mawrth 29 Ionawr, dydd Mawrth 5 Chwefror a dydd Mawrth 12 Chwefror oedd y dylid bwrw ymlaen fel yr amlinellwyd.

**8. Materion a gyfeiriwyd o'r Cyfarfod Llawn**

**9. Diwygio'r Rheolau Sefydlog**

**10. Dyfarniadau'r Llywydd**

**11. Unrhyw fater arall**

11.1 Gofynnodd Jocelyn Davies am gyfarwyddyd ar yr hyn a ystyriwyd yn iaith sarhaus yng ngoleuni'r ddadl danbaid yn y Siambr ar 17 Ionawr 2002. Dywedodd y Dirprwy Lywydd y byddai'n trafod y mater gyda'r Llywydd.
**Gweithredu: y Dirprwy Lywydd**

**YSGRIFENYDDIAETH Y SIAMBR**